# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1371(SJL) a gyhoeddwyd gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llwyodraeth Leol, ar 10 Tachwedd 2010

**At Rhodri Glyn Thomas:**

Yn ystod Cwestiynau'r Cynulliad ar 3 Tachwedd, gwnaethoch ofyn pryd y byddai deddfwriaeth newydd mewn perthynas â threth gyngor ar ail gartrefi yn dod i rym, a chytunais y byddwn yn ymateb yn ysgrifenedig i chi.

Gwnaethoch gyfeirio at ymgynghoriad a gynhaliwyd ar leihau'r dreth gyngor ar ail gartrefi. Cynhaliwyd ymgynghoriad o fis Rhagfyr 2009 hyd at fis Chwefror 2010, a oedd yn ymwneud â threth gyngor ar ail gartrefi aelodau y lluoedd arfog y mae eu prif breswylfa mewn llety a ddarperir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, diwygiwyd y rheoliadau ac o ganlyniad, o 1 Ebrill 2010, rhaid i awdurdodau lleol roi gostyngiad o 50% ar gartrefi o'r fath.

Yn fwy diweddar, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol i allu rhoi mwy o ddisgresiwn i awdurdodau lleol o ran pennu lefelau treth gyngor ar ail gartrefi drwy gyfrwng y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) Tai, a wnaed ym mis Gorffennaf. Mae'r Gorchymyn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi mesur ar waith yn hyn o beth. Y bwriad yn y cyd-destun hwn fyddai rhoi'r disgresiwn i awdurdodau lleol gynyddu'r dreth gyngor ar ail gartrefi. Gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r disgresiwn hwn lle ceir nifer fawr o ail gartrefi, er mwyn annog pobl i beidio â phrynu ail gartref ac er mwyn codi arian ychwanegol, y gellid ei ddefnyddio'n lleol i ddatblygu tai fforddiadwy ychwanegol.

O gofio byrder yr amserlen ddeddfwriaethol yn ystod sesiwn bresennol y Cynulliad, penderfynodd Pwyllgor y Cabinet ar Ddeddfwriaeth y byddai'r Mesur Tai, a ddilynodd y GCD, yn canolbwyntio ar y materion allweddol sy'n gysylltiedig â'r Hawl i Brynu a'r broses o reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried pryd y dylid cyflwyno mesur sy'n cynnwys y ddarpariaeth treth gyngor ar ail gartrefi fel rhan o'r rhaglen ddeddfwriaethol, ond ni fydd hyn tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf.